

Rheoliadau a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraffau 1(8) ac 8F(7) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2020 Rhif (Cy.)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

**IECHYD PLANHIGION,
CYMRU**

**Rheoliadau Iechyd Planhigion
(Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r
UE) 2021**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraffau 1(1) ac 11M o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill ac i ymdrin â materion sy'n deillio o'r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon yn y cytundeb ymadael â'r UE, neu faterion sy'n gysylltiedig ag ef.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gysylltiedig â Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021 (O.S. 2021/79) ac yn diwygio Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/206 (Cy. 48)).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraffau 1(8) ac 8F(7) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2020 Rhif (Cy.)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

**IECHYD PLANHIGION,
CYMRU**

**Rheoliadau Iechyd Planhigion
(Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r
UE) 2021**

Gwnaed

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraffau 1(1) ac 11M o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(1).

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd drwy benderfyniad ganddi yn unol â pharagraffau 1(8) ac 8F(7) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno(2).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021.

-
- (1) 2018 p. 16; mewnosodwyd paragraff 11M o Atodlen 2 gan adran 22 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1). *Gweler* adran 20(1) o Ddeddf 2018 am y diffiniad o "devolved authority".
- (2) Mae'r cyfeiriadau yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(2) Deuant i rym drannoeth y diwrnod y’u gwneir.

Diwygio Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020

2.—(1) Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), yn y lle priodol, mewnosoder—

“ystyr “pasbort planhigion” (“*plant passport*”) yw pasbort sy’n basbort planhigion y DU neu’n basbort planhigion arall a ganiateir;”.

(3) Yn rheoliad 42—

- (a) yn y pennawd, hepgorer “y DU”;
- (b) ym mharagraff (1)(b) ac (c), hepgorer “y DU” yn y ddau le y mae’n digwydd.

(4) Yn Atodlen 3, yn Rhan 1, yn y tabl—

- (a) yn y cofnod sy’n ymwneud ag Erthygl 79(1), yn y golofn gyntaf, yn lle “a 92a” rhodder “, 92a a 95a(2)”;
- (b) yn y cofnod sy’n ymwneud ag Erthygl 80(1), yn y golofn gyntaf, yn lle “a 92a” rhodder “, 92a a 95a(2)”;
- (c) yn y cofnod sy’n ymwneud ag Erthygl 93(5), yn yr ail golofn, yn lle “amnewid y DU” rhodder “penodol”;
- (d) ar ôl y cofnod sy’n ymwneud ag Erthygl 93(5) mewnosoder—

“Erthygl 95a(1)	Yn gwahardd cyflwyno uned fasnach GI berthnasol i Brydain Fawr o Ogledd Iwerddon oni bai bod y pasbort planhigion a oedd yn ofynnol ar gyfer ei symud o fewn Gogledd Iwerddon yn dod gyda hi.”.
-----------------	---

Enw

(1) O.S. 2020/206 (Cy. 48), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1134 (Cy. 259), O.S. 2020/1303 (Cy. 288) ac O.S. 2020/1628 (Cy. 342).

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,
un o Weinidogion Cymru
Dyddiad